EISTEDDFOD RHYS THOMAS JAMES

Llanbedr Pont Steffan, 24 - 26 Awst, 2024

TESTUNAU'R ADRAN LENYDDOL

Beirniaid: Y Prifeirdd Mererid Hopwood ac Aneirin Karadog

1. **Cystadleuaeth y Gadair.**
   Cerdd gaeth neu ddilyniant o gerddi caeth (hyd at 80 llinell): 'Fflam'
   Gwobr: Cadair Fechan a £200

2. **Cystadleuaeth y Goron.**
   Casgliad o gerddi rhydd (hyd at 100 llinell): 'Grisiau'
   Gwobr: Coron a £200

3. **Cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith.**
   Darn neu ddarnau o ryddiaith mewn unrhyw ffurf (hyd at 3,000 o eiriau): 'Cysgod'/'Cysgodion'
   Gwobr: Y Fedal a £200

4. **Cystadleuaeth y Gadair i rai dan 25 oed.**
   Cerdd yn ymwneud â'r amgylchedd
   Gwobr: Cadair Fechan a £150

5. **Tlws Rhyddiaith Ieuenctid i rai dan 25 oed.**
   Darn o ryddiaith mewn unrhyw ffurf ar y thema 'Perthyn'
   Gwobr: Tlws Ieuenctid a £150

6. **Englyn.**
   Testun: 'Gwers'
   Gwobrau: 1. £50 2. £30 3. £15

7. **Telyneg mewn mydr ac odl**
   Testun: 'Plu'
   Gwobrau: 1. £50 2. £30 3. £15

8. **Cerdd yn y wers rydd.**
   Testun: 'Clo'
   Gwobrau: 1. £50 2. £30 3. £15

9. **Cywydd.**
   Cywydd coffa i berson a fu farw yn 2024 (dim mwy na 16 llinell)
   Gwobrau: 1: £50 2. £30 3. £15

10. **Soned.**
    Testun: 'Tywod'
    Gwobrau: 1. £50 2. £30 3. £15

11. **Rhyddiaith:**
    Dwy fonolog ar gyfer person ifanc rhwng 12 ac 16 oed (na chymer fwy na 5 munud yr un i'w perfformio)
    Gwobrau: 1. £50 2. £30 3. £15

12. **Cystadleuaeth i ddysgwyr y Gymraeg (pob lefel):**
    Testun: Llythyr at ffrind yn sôn am brofiad arbennig
    Gwobr: £50 i'w rannu yn ôl dewis y beirniad.

13. **Cyfansoddi tôn i emyn buddugol 2023 gan Siw Jones.** Gwobr £100.
Cynigion i law ysgrifennydd y Pwyllgor Cerdd, Delyth Morgans Phillips, Blaenfallen,Talsarn, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8QP erbyn BORE Mawrth, 13 Awst.

Emyn addas i blant oed cynradd

Cytgan:
Mae heddiw'n gyfle newydd,
yn un dudalen lân,
dysg i ni roi o'n gorau
a chymryd cam ymla'n.

Down yma at ein gilydd,
un teulu mawr y'm ni,
ry'm oll yn rhan o'r cread
a'th fyd rhyfeddol Di.
Cytgan

Yr ydym oll yn debyg,
er, yn wahanol iawn,
pob un, yr un mor bwysig -
i wneud y llun yn llawn.
Cytgan

Bob dydd, mae'n rhaid anelu
at wneud ein gorau glas,
dal ati hyd nes llwyddo,
a dysgu gyda blas.
Cytgan

Pe digwydd i ni fethu
a'r byd yn teimlo'n frau,
fe ddaw 'na gyfle arall,
heb deimlo'n fymryn llai.
Cytgan

Drwy ddysgu gyda'n gilydd
fe dyfwn ni bob dydd,
wrth gadw'n driw i'n gwreiddiau –
fe gawn adenydd rhydd.
Cytgan

Siw Jones

Talwrn y Beirdd

Sylwer: Eleni, bydd y Talwrn yn digwydd ar **nos Wener** (23 Awst) ac nid ar y nos Lun. Dim llai na 3 aelod ymhob tîm.
Gwobrau: 1. £150 a Tharian Sialens Goffa Jim Evans; 2. £100; 3. £50. (Rhoddir £20 i bob tîm arall sy'n cystadlu).
Mwy o fanylion i ddilyn.
I gofrestru, cysylltwch ag ysgrifennydd y Pwyllgor Llên, Marian Morgan : 07870515492 neu davies_marian879@hotmail.com. Byddwn yn anelu at rannu'r testunau gyda'r timau ar 13 Awst 2024 felly rhaid cofrestru cyn hynny.

****

Amodau

1. **Rhaid i bob cynnig llenyddol fod yn llaw Cadeirydd y Pwyllgor Llên erbyn BORE Mawrth, 13 Awst 2024**. Er tegwch i'r beirniaid, ni dderbynir cynigion ar ôl y diwrnod hwn ac ni dderbynir cynigion drwy e-bost. Danfoner at Elin Williams, Y Garn, Cwm-ann, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 8EL
2. Mae angen nodi ffugenw ar bob ymgais. Hefyd, rhaid amgáu amlen dan sêl yn cynnwys enw a chyfeiriad y cystadleuydd, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost, ac, ar ei chlawr, enw'r gystadleuaeth a ffugenw.
3. Atelir y wobr yng nghystadlaethau'r Gadair, y Goron, y Fedal Ryddiaith, y Gadair i rai dan 25, a'r Tlws Rhyddiaith Ieuenctid, oni bydd y buddugol (neu gynrychiolydd mewn amgylchiadau arbennig) yn bresennol yn yr Eisteddfod.
4. Cyhoeddir y canlyniadau yn Y Talwrn ar nos Wener 23 Awst 2024, ag eithrio cyst. 2, 4 a 5 ar y dydd Sadwrn; cyst.13 ar y nos Sul; a chyst. 1 a 3 ar y dydd Llun.
5. Danfonir beirniadaethau yn electronig i bawb sydd wedi rhoi cyfeiriad e bost i ni. Os ydych yn dymuno derbyn beirniadaeth drwy'r post, dylid nodi hynny wrth gystadlu a chynnwys amlen gyda stamp arni.
6. Rhaid i'r holl gynigion fod yn Gymraeg, yn waith dilys unigolion, ac wedi'u teipio neu wedi'u hysgrifennu'n eglur ar bapur maint A4. Lle bo cystadleuydd yn gwneud sawl ymgais mewn cystadleuaeth, dylai pob cyfansoddiad fod ar dudalen ar wahan.
7. Bydd hawlfraint yr holl gyfansoddiadau buddugol yn eiddo i Bwyllgor yr Eisteddfod.